O ganlyniad uniongyrchol i ymwneud WRW â'r prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff, mae'r cwmni bellach wedi cyflwyno arferion "dim gwastraff" ar gyfer pob un o'u prosiectau yn y dyfodol:

- Mae gwastraff bellach ar agenda'r cyfarfodydd cyn-gosod a gynhelir gyda phob is-gontractwr. Cytunir ar strategaethau lleihau gwastraff a chytunir meintiau disgwyliedig ymhell cyn dechrau'r gwaith.
- Defnyddir SMARTWaste fel dogfen fyw trwy gydol prosiectau gan ddiweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd. Defnyddir y data mewn cyfarfodydd prosiect misol.
- Gyrrwyd data gwastraff cywirach at y tîm amcangyfrif er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth ar gyfer tendrau tebyg yn y dyfodol.
- Caiff amcangyfrifon gwastraff eu cyfathrebu'n gliriach i dimau safle mewn ymgais i annog rheoli gwastraff yn barhaus trwy gydol y prosiect. Mae lleihau gwastraff hefyd ar agenda cyfarfodydd dechrau'r prosiect er mwyn adnabod meysydd lle gellir gostwng y gwastraff a gynhyrchir.

Oherwydd deddfwriaeth arfaethedig, bydd raid newid arferion presennol y diwydiant. Nodir y newidiadau hyn hefyd yn yr adroddiad ac, i'r perwyl hwn, mae angen ymchwil pellach i asesu gallu'r seilwaith (infrastructure) presennol ar gyfer delio â gwastraff y gwaherddir ei dirlenwi a'i losgi.

1.0 Beth yw Galluogi Dyfodol Diwastraff?

Rhaglen gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yw Galluogi Dyfodol Diwastraff (Enabling Zero Waste -EZW). Y nod yw darparu mewnbwn ymarferol, positif a rhagweithiol i sefydlu os, a sut, y gall y diwydiant adeiladu gyrraedd y targed ar gyfer gwastraff yng Nghymru lle na chynhyrchir unrhyw wastraff o gwbl. Mae hefyd yn ceisio adnabod y rhwystrau rhag cyflawni'r nod hwnnw trwy weithio law yn llaw â safleoedd adeiladu byw.

Mae CEW yn cydweithio â'r diwydiant adeiladu gan gynnig cymorth ymarferol i dimau prosiect a safleoedd adeiladu er mwyn archwilio dewisiadau ymarferol tuag at ddyfodol diwastraff. Bydd y prosiect yn rhoi darlun manwl inni o ba mor ymarferol yw'r nod o yrru dim gwastraff o gwbl i safleoedd tirlenwi.

Amcanion y prosiect

- To understand and evidence when and how wastes occur during the construction process
- Deall a darparu tystiolaeth ynghylch y modd y mae gwastraff yn cael ei gynhyrchu yn ystod y broses adeiladu
- Deall y strategaethau, dulliau a chyfleoedd presennol i arbed gwastraff safleoedd adeiladu rhag cael ei yrru i'w dirlenwi
- Dadansoddi ymarferoldeb gyrru dim gwastraff o gwbl i'w dirlenwi yn yr hinsawdd bresennol
- Gweithio tuag at ddatblygu atebion a fydd yn atal a lleihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd adeiladu, gan ostwng costau rheoli, gwaredu a thirlenwi
- Cefnogi newidiadau mewn ymddygiad a phrosesau a fydd yn hyrwyddo'r gwaith o atal a lleihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir
- Cael arbedion effeithlonrwydd ar safleoedd adeiladu trwy fanteisio ar gyfleoedd ac atebion rheoli gwastraff – lleihau costau cludo, gwella traffig safleoedd, lleihau cost cyflenwadau a deunyddiau, gwella cynhyrchedd
- Rhannu gwybodaeth am atebion a chyfleoedd sy'n deillio o ddatblygu strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli gwastraff
- Darparu cyfleoedd dysgu ac addysgu mewn perthynas â thechnegau rheoli gwastraff y gellir eu lledaenu ar gyfer prosiectau'r dyfodol a thrwy hynny sicrhau manteision parhaus.

Paratowyd yr adroddiad hwn ar ôl cwblhau gwaith ar y safle er mwyn cyflwyno deilliannau, cyfleoedd a llwyddiannau'r prosiect.

1.1 Pwy yw WRW Construction Ltd?

Sefydlwyd WRW gan y Rheolwr Gyfarwyddwr Robert Williams MBE a'r Cyfarwyddwr Grŵp Debbie Williams yn 1985. Ers hynny tyfodd y cwmni mewn ffordd organig gan chwarae rhan allweddol dros dri deg mlynedd yn y diwydiant adeiladu yn y meysydd addysg, masnachol, sifil, hamdden, adfer a chodi tai preswyl. Mae ffocws WRW ar ansawdd ac ar ddarparu atebion blaengar ac integredig sy'n cynnig y gwerth gorau oll. Anelant at ansawdd rhagorol wrth gyflawni gwaith yn amrywio o ffitio i ailddatblygu, i adeiladau preswyl i atebion "troi'r goriad" (turn-key).

2.0 Ysgol Gynradd Millbank

Roedd ailwampio Ysgol Gynradd Millbank yn brosiect a gyflawnwyd gan WRW ar ran Cyngor Dinas Caerdydd. Golygai adnewyddu hen adeilad ysgol Fictorianaidd ac estyniad traddodiadol a godwyd wedi'r ail ryfel byd, dymchwel linc a godwyd yn y 1970au ac adeiladu linc newydd. Y gofyniad gwreiddiol oedd adnewyddu'r adeiladau presennol, ond cymhlethwyd y dasg yn gynyddol pan ganfuwyd llawer mwy o bydredd sych a phydredd gwlyb na'r hyn a ragwelwyd. Arweiniodd hyn at gynhyrchu llawer mwy o wastraff nag a ragwelwyd yn wreiddiol a llawer iawn o newidiadau i'r rhaglen wreiddiol. Roedd y cynllun i fod i gael ei gwblhau erbyn dechrau tymor mis Medi 2014 ond oherwydd maint y problemau a gafwyd ar y safle, ni chwblhawyd y gwaith tan Ionawr 2015.

Roedd gan y prosiect darged ailgylchu cynnwys o 10%.

Ar ddechrau'r prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff roedd dyluniad Millbank wedi ei gwblhau; pob caniatâd cynllunio angenrheidiol yn ei le a'r contractwr, yr is-gontractwyr haen un, y cyflenwyr a'r contractau rheoli gwastraff oll wedi eu penodi.

2.1 Cost

Adroddwyd mai £2.3miliwn oedd gwerth gwreiddiol y prosiect. Oherwydd y problemau pydredd sych a gwlyb na chafodd eu rhagweld, cynyddodd y gost yma.

2.2 Math o gytundeb

Roedd y cytundeb ar ffurf contract adeiladu tri deg wythnos. Darparwyd y dyluniad (ac eithrio'r gwaith draenio) gan Gyngor Dinas Caerdydd. Cafodd y prosiect ei gaffael fel rhan o'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

3.0 Methodoleg

Ar gyfer pob cyfranofwyr y prosiect paratowyd cynllun gwaith a methodoleg benodol. Datblygwyd y cynnwys gyda thîm y prosiect gyda'r bwriad o ychwanegu at unrhyw fesurau a oedd eisoes yn cael eu gweithredu. Dros gyfnod y prosiect, darparwyd y canlynol i dîm prosiect Millbank:

- Cefnogaeth dechnegol ac arweiniad rheoli gwastraff trwy gydol y cyfnod adeiladu i gynorthwyo'r broses o anelu at anfon dim gwastraff i'w dirlenwi.
- Clustnodi adnodd penodol rheoli gwastraff i roi cymorth ymarferol ar y safle adeiladu a gwireddu'r opsiynau ar gyfer cynhyrchu dim gwastraff ynghyd ag atebion rheoli gwastraff posibl. Roedd y cymorth a roddwyd yn cynnwys ymweliadau â'r safle a chyngor ynghylch didoli mwy o wastraff, adnabod y deunyddiau ar y safle, lleihau gwastraff drwy annog arferion darbodus a fyddai'n lleihau achosion o ddifrodi a gor-archebu nwyddau ac yn lleihau gwastraff drwy ailddefnyddio neu ganfod atebion eraill posibl yn hytrach na gwaredu.
- Cymorth i weithio gyda chadwyn gyflenwi'r safle, cleientiaid a chwmnïau rheoli gwastraff i annog cynlluniau "cymryd yn ôl", addysgu ehangach a gwella ansawdd y data ynghylch gwastraff.
- Paratoi, monitro a diweddaru Cynllun Rheoli Gwastraff Safle (Site Waste Management Plan – SWMP) gan ddefnyddio BRE SMARTWaste.
- Paratoi Model Gwybodaeth Adeiladu (BIM) ar gyfer y safle gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd gan Gyngor Dinas Caerdydd.
- Adolygu ac optimeiddio'r dyluniad gan ddefnyddio BIM i leihau gwastraff i'r eithaf, dadansoddi ac amcangyfrif y foliwm a'r math o wastraff disgwyliedig, ac adnabod gwrthdrawiadau posibl ar y safle.

Gwnaed cyfanswm o saith ymweliad i gefnogi rheoli gwastraff fel rhan o'r rhaglen Galluogi Dyfodol Diwastraff. Ynddynt cynhaliwyd trafodaethau gyda thimau safle ynglŷn â heriau cyfredol y safle a rheoli gwastraff, y cynnydd a wnaed, datrysiadau a gwelliannau posibl. Yn dilyn pob ymweliad safle, gwnaed argymhellion i wella'r arferion rheoli gwastraff. Y prif argymhellion rheoli gwastraff oedd:

- Cynnwys gwastraff o fewn y trafodaethau cyn-gosod er mwyn sicrhau fod pawb yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a chreu ethos gref o blaid atal gref ar ddechrau cyntaf y prosiect a thrwy gydol ei barhad.
- Ail ddefnyddio rwbel a deunydd caled ar y safle.
- Adnabod hyrwyddwr arbed gwastraff i adolygu prosesau, sicrhau cydymffurfio â'r gyfraith a dilyn yr arferion gorau wrth reoli gwastraff
- Cynnal "sgyrsiau bocs tŵls" i godi ymwybyddiaeth ynghylch atal a lleihau gwastraff.
- Atal deunyddiau rhag cael eu difrodi ar y safle drwy eu cadw'n sych ac mewn man diogel.
- Trafod y pwnc gwastraff mewn cyfarfodydd ymsefydlu (induction) ac mewn gofynion penodol i'r safle.

Darparwyd dogfennau a chanllawiau perthnasol i'r uchod yn ogystal.

Defnyddiwyd y broses Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) hefyd fel rhan o'r prosiect er mwyn adnabod gwrthdrawiadau posibl ac ystyried ffyrdd posibl o leihau gwastraff drwy newidiadau damcaniaethol i'r dyluniad neu newid deunyddiau. Defnyddiwyd dronau awyr yn ogystal i dynnu lluniau o'r cynnydd a wnaed trwy gydol y prosiect.

Roedd y dulliau cyfathrebu yn cynnwys diweddariadau rheolaidd ar twitter, digwyddiadau, gwe-gyfarfodydd a chyflwyniadau.

4.0 Canfyddiadau a deilliannau allweddol

4.1 Dadansoddiad fesul cyfnod adeiladu

Cynhyrchwyd 700m³ o wastraff gan y prosiect.
Dengys Ffigwr 1 y foliwm o wastraff fesul math o wastraff a gynhyrchwyd trwy gydol oes y prosiect.



Ffigwr1: Ysgol Gynradd Millbank – Cyfanswm y gwahanol fathau o wastraff trwy gydol y prosiect

4.1.1 Cyfnod sefydlu'r safle

Yn ystod y cyfnod hwn, adroddwyd fod y rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchwyd yn wastraff cymysg - oddeutu 4m³.

4.1.2 Dymchwel a stripio'r safle

Cafodd yr adeilad a godwyd yn y 1970au ei ddymchwel gan Bond Demolition cyn i'r cynllun gael ei gynnwys yn y prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff. Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg dymchwel ond adroddwyd y bu stripio meddal mewnol. Cynhyrchwyd ychydig dros 37m³ o wastraff o ganlyniad i'r gwaith dymchwel dechreuol. Roedd y rhan fwyaf ohono'n ddeunydd anadweithiol – brics yn bennaf. Cynhyrchwyd rhagor o wastraff brics yn ddiweddarach yn y rhaglen pan ofynnodd y cleient am ddymchwel y wal allanol a'i hailgodi gan ddefnyddio brics newydd. Cynhyrchwyd cyfanswm o 24m³ o wastraff brics yn uniongyrchol gan y gwaith dymchwel. Aed â'r gwastraff brics gan Atlantic Waste i Neal Soil Supplies lle cawsant eu malurio'n fân i'w hailgylchu fel agreg. Ymhlith y ffrydiau gwastraff eraill a gynhyrchwyd roedd coed cymysg, asbestos (12.7m³) a gwastraff cymysg adeiladu a dymchwel (43.8m³). Cludwyd y gwastraff dymchwel at gyfleusterau ailgylchu Atlantic a Neals i'w ailbrosesu.

4.1.3 Cael gwared o asbestos
Cymerwyd cyfanswm o 12.7m^3 o asbestos o'r adeilad yn ystod y cyfnod dymchwel. Yna symudwyd ymaith ragor o asbestos yn y cyfnod adnewyddu a chael gwared ohono ar wahân. Aed â shitiau asbestos mawr yn uniongyrchol i safle gwastraff peryglus yn Swindon a chymerwyd gwastraff insiwleiddio i orsaf trosglwyddo gwastraff yng Nghaerdydd cyn ei waredu'n briodol mewn safle tirlenwi deunyddiau peryglus.

4.1.4 Adnewyddu, trin pydredd gwlyb a sych, gwaith cloddio
Bu oedi ar y safle oherwydd yr angen i drin pydredd gwlyb a sych. Crëwyd tua 50m^3 o wastraff adeiladu cymysg gan y gweithgaredd hwn.

4.1.5 Tynnu plastr oddi ar waliau'r hen adeilad
Mae'r deunyddiau a gynhyrchir gan y broses hon yn anochel yn gymysg ac nid yw'n ymarferol eu gwahanu. Yn anochel felly, fe'u gwaredwyd fel gwastraff adeiladu cymysg.

4.1.6 Adeiladu waliau a chael gwared o loriau coed
Tynnwyd lloriau coed o'r hen adeilad. Y prif ffrwd gwastraff a grëwyd oedd coed cymysg halogedig (dros 160m^3) gan fod cymaint o bydredd sych a gwlyb. Crëwyd tua 60m^3 o wastraff cymysg adeiladu a dymchwel gan y gweithgareddau hyn, ynghyd ag ychydig asbestos a deunydd anadweithiol.

4.1.7 Ffitiadau cyntaf mecanyddol ac thrydanol
Roedd mwyafrif y gwastraff adeiladu a gynhyrchwyd gan y gweithgaredd hwn o natur cymysg (26m^3). Oherwydd natur gymysg y deunydd hwn, mae'r gwaith yma'n debygol o fod wedi dylanwadu ar y graddfeydd adfer.

4.1.8 Leinio sych, nenfydau, gwasanaethau, teils, gwaith mecanyddol a thrydanol
Roedd y ffrydiau gwastraff a gynhyrchwyd gan y gweithgareddau hyn yn cynnwys gwastraff adeiladu cymysg, gwastraff coed cymysg, byrddau plastr a gwastraff brics.

4.1.9 Addurno, lloriau, teils, gwaith mecanyddol, trydanol a gwaith coed
Adroddwyd mai'r gwastraff pennaf a gynhyrchwyd gan y gweithgareddau hyn oedd gwastraff adeiladu cymysgu (tua 80m^3), coed cymysg (tua 11m^3) a brics (tua 4m^3).

4.1.10 Dodrefn, Ffitiadau ac Offer (FFE) a chlirio'r safle
Oherwydd y pwysau amser wrth i'r amser trosglwyddo nesáu, cafwyd gwared o'r rhan fwyaf o'r gwastraff a gynhyrchwyd gan y gweithgareddau hyn fel gwastraff adeiladu cymysg (tua 30m^3).

4.1.11 Cwblhau / Trosglwyddo
Roedd y casgliadau gwastraff olaf yn Rhagfyr yn wastraff cymysg. Trosglwyddwyd y safle i'r ysgol yn Ionawr 2015.

4.2 Dadansoddiad fesul rhaglen
Yn ystod y rhaglen roedd sawl cyfnod gwahanol pan oedd y gwastraff a gynhyrchwyd ar ei uchaf. Nodir y rhesymau dros y cyfnodau hyn isod.

4.2.1 Anterth Chwefror
Yn Chwefror, roedd y gwastraff adeiladu cymysg a gynhyrchwyd (77.45m^3) yn deillio'n uniongyrchol o'r gwaith dymchwel a stripio safle oedd yn digwydd bryd hynny. Golygodd y methiant i gynnal arolwg cyn dymchwel na luniwyd cynllun clir ar gyfer ailddefnyddio a didoli a gwahanu deunyddiau. O ganlyniad roedd y gwastraff dymchwel oll wedi ei gydgymysgu.

4.2.2 Anterth Mai
Ym Mai gwelwyd uchafbwynt arwyddocaol yn y gwastraff coed a gynhyrchwyd (124.75m^3). Digwyddodd hyn yr un pryd ag y gwaredwyd pydredd gwlyb a sych o'r adeilad. Roedd yn rhaid symud ymaith y deunydd hwnnw ac ni ellid ei ailddefnyddio na'i ailgylchu. Yn anochel, felly, rhaid oedd ei anfon i'w dirlenwi.

4.2.3 Anterth Medi
Y ffrwd wastraff a gynhyrchwyd fwyaf ym Medi oedd gwastraff adeiladu cymysg (25.7m^3) a brics (16.2m^3). Roedd hyn oherwydd gwaith dymchwel ychwanegol na chafodd ei ragweld yn unol â chyfarwyddyd y Cleient ym Medi 2014 a Thachwedd 2014.

4.2.4 Anterth Tachwedd a Rhagfyr
Cynyddodd maint y gwastraff adeiladu i'w anterth ym misoedd Tachwedd(47.7m^3) a Rhagfyr (29.3m^3). Awgryma'r ymweliadau safle a wnaed yn y cyfnod hwn mai'r rheswm dros y cynnydd yma mewn gwastraff cymysg oedd pwysau amser ar y safle oherwydd yr ymdrechion i orffen y prosiect a chlirio'r safle cyn ei drosglwyddo. Efallai fod y ffactorau hyn wedi cyfrannu at ostyngiad ym maint y gwastraff a wahanwyd ar y safle.

4.3 Dadansoddiad fesul opsiwn rheoli gwastraff

HIERARCHAETH WASTRAFF (GWASTRAFF A GRËWYD)

GWASTRAFF A GRËWYD (m³)



I gyrraedd y pwynt o gynhyrchu dim gwastraff, rhaid canolbwyntio ymdrechion ar lefelau uchaf yr hierarchiaeth wastraff er mwyn ceisio atal gwastraff rhag cael eu greu yn y lle cyntaf a lleihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir. Mae'r diagram uchod yn dangos dosbarthiad y gwastraff a grëwyd fesul math.

4.3.1 Atal

Yn y prosiect hwn, ni lwyddodd yr ymyriad Galluogi Dyfodol Diwastraff i rwystro gwastraff rhag cael ei gynhyrchu mewn meintiau mesuradwy. Fodd bynnag, dylid nodi fod mesurau syml fel defnyddio deunyddiau off-cut ar y safle wedi arwain at ostwng maint y gwastraff a gynhyrchwyd, er ei bod yn anodd mesur union faint y gostyngiad hwnnw. Fel rhan o'r ymarferiad BIM, y ceir ei fanylion yn adran 5.1, ailfodelwyd dyluniad yr adeilad (o fewn cyfyngiadau cynllunio) a gwelwyd fod posibilrwydd osgoi 80m³ o wastraff (yn seiliedig ar ostyngiad o 12.1% yn y deunyddiau angenrheidiol i adeiladu'r wal).

4.3.2 Ailddefnyddio

Drwy gydweithio â'r gadwyn gyflenwi, dychwelwyd chwech llond sgip o flociau Durisol dros ben a/neu flociau wedi eu difrodi i'w hailddefnyddio. Roedd hyn gyfwerth â 25m³ o ddeunyddiau a fyddai fel arall wedi cael eu hanfon i'w claddu mewn safle tirlenwi.

4.3.3 Ailgylchu

Cafodd pedwar deg dau y cant (294m³) o'r gwastraff a gynhyrchwyd yn ystod y prosiect ei ailgylchu. Ymhlith y cyfraddau ailgylchu uchaf yr oedd ailgylchu 100% o gardfwrdd, byrddau plastr a phlastig. Roedd y raddfa ailgylchu gwastraff anadweithiol gan y cwmni rheoli gwastraff yn 98%. Y cyfraddau ailgylchu isaf a gyflawnwyd oedd gwastraff cymysg a adroddwyd fel 60.3%. Tybir mai'r rheswm dros hyn oedd natur gymysg y gwastraff a roddwyd yn y sgipiau. Gallai hyn fod wedi arwain at groes-lygru ac at ddeunydd ailgylchu o ansawdd is o ganlyniad.

4.3.4 Adfer ynni

Gyrrwyd tri deg chwech y cant (253m³) o'r gwastraff i adfer ynni (energy recovery). Digwyddodd hyn oherwydd y foliwm uchel (209m³) o goed halogedig a gynhyrchwyd. Llosgi neu adfer ynni yw'r ffordd orau o drin y gwastraff yma ar hyn o bryd.

4.3.4 Tirlenwi

Gyrrwyd deunaw y cant (18%) o'r gwastraff i'w dirlenwi (128m³), y rhan fwyaf ohono yn wastraff cymysg. Roedd deuddeg metr giwbig (12m³) o'r cyfanswm a yrrwyd i'w dirlenwi yn asbestos - dyma'r unig ddewis economaidd ar gyfer y gwastraff hwn ar hyn o bryd. Roedd y ffigwr cymharol uchel (18%) a yrrwyd i'w dirlenwi i raddau helaeth oherwydd tân yn safle'r cwmni rheoli gwastraff a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl. Efffeithiodd y tân yn ddifrifol ar effeithlonrwydd gweithrediadau'r cwmni rheoli gwastraff a arweiniodd at anfon y maint o wastraff a nodir uchod i'w waredu trwy dirlenwi.

4.4 Dadansoddiad fesul ffrwd wastraff unigol

4.4.1 Coed

Creodd y pydredd sych a gwlyb annisgwyl o fewn yr adeilad sawl her i dîm y safle. Yn gyntaf, cynhyrchwyd mwy o wastraff coed na'r disgwyl . Hefyd, ar ddechrau'r prosiect roedd tîm y safle wedi rhagweld y byddent yn gadael y lloriau pren parquet gwreiddiol a distiau'r lloriau yn eu lle. Fodd bynnag, oherwydd y pydredd sych a gwlyb nid oedd hynny'n ymarferol. Atgyweiriwyd distiau a thrawstiau coed a'u hailddefnyddio ym mhob rhan o'r hen adeilad hyd y gellid. Fodd bynnag, ni chafodd y rhain eu cyfrif i wybod faint yn union a ailddefnyddiwyd. Nid oedd y nodiadau trosglwyddo gwastraff yn gwahaniaethu rhwng coed "glan" a choed pydredd sych. Rydym felly wedi amcangyfrif fod y mwyafrif o'r gwastraff hwn wedi ei yrru i adfer ynni yn hytrach na'i droi'n sglodion a'i wasgaru dan anifeiliaid, sef y gyrchfan arall a enwyd ar gyfer gwastraff coed.

Roedd gan dîm y prosiect darged dechreuol o ddeg sgip o goed ond adroddwyd fod y ffigwr ar ddiwedd y prosiect yn dri deg tri o sgipiau. Roedd y gwahaniaeth rhwng y targed a'r deilliant i'w briodoli'n llwyr i faint y pydredd sych a gwlyb annisgwyl a gafwyd.

4.4.2 Brics

Cynhyrchwyd 24m^3 o wastraff brics oherwydd yr angen i ddymchwel wal yr hen ysgol. Aed â'r gwastraff brics at Atlantic and Neal Soil Supplies lle cawsant eu malurio'n fân i'w hailddefnyddio fel agreg.

4.4.3 Blociau Durisol

Defnyddiodd y prosiect flociau Durisol i godi'r adeilad newydd. Cynhyrchir y blociau hyn o sglodion coed wedi eu hasio ynghyd gyda sment. Unwaith y maent ar y safle, cânt eu bondio yn eu lle gydag ewyn polystyrene a growt seiliedig ar sment. Dewiswyd y cynnyrch hwn gan y cleient er mwyn helpu i gyrraedd y nod o sicrhau fod 10% o gynnwys y cynllun wedi ei ailgylchu. Mae hyn, fodd bynnag, wedi amlygu'r potensial am rai anawsterau yn y dyfodol. Wrth edrych ar y fethodoleg ar gyfer defnyddio'r blociau yma ar y prosiect hwn, daethom i'r casgliad mai'r unig ffordd o'u gwaredu ar ddiwedd eu hoes fyddai trwy eu tirlenwi. Oherwydd ymgorffori dur atgyfnerthu, polystyrene a growt sment fel llenwad a defnyddio ewyn ehangedig (expaned foam) i lenwi foidiau, byddai gwahanu'r deunyddiau hyn oddi wrth y blociau yn y dyfodol yn bur anymarferol. Cytunwyd ar drefniad "cymryd yn ôl" gyda Durisol lle byddent yn derbyn yn ôl i'w stoc unrhyw flociau na chafodd eu defnyddio ac y byddai blociau wedi torri yn mynd nôl i'r broses gynhyrchu a'u hail ddefnyddio i wneud ffurfiau wal. Sicrhaodd y trefniant hwn na chafodd unrhyw flociau Durisol dros ben neu flociau wedi torri eu hanfon i'w tirlenwi gan arbed cost o tua £360.

4.4.4 Byrddau Plastr

Cynhyrchwyd mwy o wastraff byrddau plastr (18.3m^3) nag a ragwelwyd (8m^3). Y bwriad gwreiddiol oedd atgyweirio a sgimio dros y byrddau plastr oedd eisoes yn eu lle ond unwaith y canfuwyd pydredd sych, roedd yn rhaid symud ymaith y plastr i gael gwared o'r coed oedd wedi eu suddo yn y gwaith brics. Cynhyrchwyd 18.3m^3 o wastraff byrddau plastr a chredwn fod y cyfan wedi ei ailgylchu.

4.4.5 Asbestos

Ddarganfuwyd Asbestos yn ystod y dymchwel ac adnewyddu'r adeilad. Anfonodd 12.7m3 o wastraff i'r safle tirlenwi peryglus. Mae tirleni yn ystyriodol am y ffordd fwya' economaidd ar hyn o brid.

4.4.6 Mixed construction waste

Barnwyd fod y mwyafrif o'r sgipiau a adawodd y safle yn wastraff cyffredinol cymysg a methodd tîm y prosiect â chyrraedd y targed o 35 sgip. Ar ddiwedd y prosiect roedd 102 o sgipiau gwastraff cyffredinol cymysg wedi gadael y safle. Rydym o'r farn fod nifer o ffactorau gwahanol yn gyfrifol am y gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif dechreuol a'r ffigwr terfynol. Ar ddechrau'r prosiect, roedd y safle wedi darparu sgipiau gwahanol ar gyfer gwastraff anadweithiol, coed a chymysg. Fodd bynnag, wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen, oherwydd pwysau gorffen mewn pryd a newidiadau yn staff y safle dechreuodd sgipiau gael eu halogi gan ddeunydd cymysg. O ganlyniad bu'n rhaid cael gwared o'r gwastraff fel gwastraff cymysg cyffredinol am gost uwch. Erbyn diwedd y prosiect, roedd hefyd symiau mawr o wastraff cardfwrdd yn cael ei roi yn y sgipiau yn hytrach nag mewn sgip ar wahân. Oherwydd y ffactorau hyn roedd y gost o waredu gwastraff yn uwch nag y dylai fod.

Gyrrwyd gwastraff adeiladu cymysg at Atlantic i'w brosesu a'i ddidoli. Yn ystod y cyfnod adrodd deëllir fod tua 60% o'r gwastraff hwn wedi cael ei ailgylchu, 11% wedi ei anfon i'w drylosgi a'r 29% arall ei yrru i safle tirlenwi. Roedd y raddfa gwaredu trwy dirlenwi gan y cwmni rheoli gwastraff yn llawer uwch na'u patrwm arferol oherwydd tân difrifol a gafwyd yn 2014 a effeithiodd yn negyddol ar effeithlonrwydd y cyfleusterau adfer. Mae'n bosibl hefyd i'r raddfa ailgylchu ar gyfer gwastraff adeiladu cymysg ddeillio o natur gymysg y gwastraff lle cafodd deunydd ei halogi ac, o ganlyniad, ei ystyried yn ddeunydd ailgylchu o safon is.

4.5 Dadansoddiad yn ôl cost

Cyfanswm cost gwaredu gwastraff y prosiect oedd £21,340. Arbedwyd £360 gan drefniant cymryd yn ôl y blociau Durisol. Byddai'r gost o waredu gwastraff wedi bod yn llai pe na bai cymaint o sgipiau wedi cael eu categoreiddio'n "wastraff cymysg". Yn draddodiadol, codir mwy am waredu sgipiau gwastraff cymysg na sgipiau sy'n cynnwys un math o wastraff. Gallai didoli a gwahanu gwastraff yn well ar y dechrau fod wedi arbed llawer o arian. Er enghraifft, pe byddid wedi cyrraedd targed gwreiddiol WRW o 35 o sgipiau gwastraff yn hytrach na'r 102 a gafwyd mewn gwirionedd, a bod y gweddill wedi cael eu gwaredu yn ôl y pris am ddeunydd a wahanwyd, byddid wedi arbed £1,340 ar gostau sgip. Nid yw'r pris a dalwyd am waredu holl wastraff cynllun Millbank ond yn cyfateb i 0.7% o gost gyfalaf y cynllun. Fodd bynnag, mae gwario £20,000 ar waredu gwastraff yn swm sylweddol y gellid bod wedi ei leihau. I gwmnïau adeiladu sy'n gweithio ar gynlluniau niferus bob blwyddyn, y mae'n bosibl iddynt arbed llawer iawn o arian yn flynyddol.

4.6 Dadansoddiad fesul meincnod diwydiant

Cymharwyd y gwastraff a grëwyd ym Millbank gyda'r cyfartaledd m^3 o wastraff a gynhyrchwyd mewn prosiectau eraill yn seiliedig ar eu harwynebedd a'u cost gyfalaf.

Gwastraff Millbank	Data SMARTWaste ar gyfer Cymru (Codi adeiladau Addysg newydd)	Data SMARTWaste ar gyfer Cymru (Adnewyddu adeiladau Addysg)	Credydau BREEAM (Y gwastraff a gynhyrchir am bob 100m^2 o arwynebedd llawr gros)	
52.8m^3/m^2	17.5m^3/m^2 yn seiliedig ar 30 prosiect	22.3m^3/100m^2 yn seiliedig ar 5 prosiect	1 credyd <13.3m^3	3 credits <3.4m^3
30.4m^3/£100k	10.3m^3/£100k yn seiliedig ar 31 prosiect	12.9m^3/£100k yn seiliedig ar 6 prosiect	2 gredyd <7.5m^3	Enghreifftiol <1.6m^3

Defnyddiodd CEW data o "BRE's SMARTWaste system" ar gwastraff adeiladwaith yn cynhyrchi o prosiectau yng Nghymru a wnaeth cwbwlhau yn y diwedd o Mehefin 2013. SMARTWaste yw system cofnodi ar y we sydd yn helpu tracio, rheoli a cofnodi ar effaithion amgylcheddol a cynaliadwedd yn cynnwys rheoli gwastraff.

Mea'r BREEAM (BRE Environmental Assesment Method) yn ceal ei defnydd yn eang am asesiad amgylchedd i adeiladau a cyminedau. Mae BREEAM yn cyfeirio materion amgylcheddol a cynaliadwedd, ac yn defnuddio credydd yn yr asesiad cymhwysedd.

Bernir mai'r symiau annisgwyl o goed pydredd sych a phydredd gwlyb oedd y ffactor oedd fwyaf tebygol o fod wedi dylanwadu ar ganlyniad cyflawniad ar ddangos o Millbank.

5.0 Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM)

Fel rhan o'r broses Galluogi Dyfodol Diwastraff comisiynwyd Gillard Associates Ltd i baratoi model BIM i hysbysu ac addysgu'r pawb a fyddai'n cyfrannu at reoli gwastraff, naill ai drwy helpu i wneud penderfyniadau ar y safle neu trwy edrych ar senarios rhithiol ar gyfer y cyfnod wedi cwblhau'r adeilad. Am fod diffygion na chafodd eu rhagweld yn ffabrig yr hen adeilad wedi cael effaith ddrwg ar gynllun Ysgol Millbank cywasgwyd amserlen y prosiect yn ddirfawr. Roedd hwn yn ffactor arwyddocaol a rwystrodd ddefnyddio neu gymharu â'r model BIM yn ystod y cyfnod adeiladu. O ganlyniad, canolbwyntiwyd y defnydd o BIM ar ddeilliannau rhithiol a damcaniaethol wedi i'r gwaith ddod i ben.

5.1 Gwella prosesau

Cydnabyddir yn eang yn y sector amgylcheddau adeiledig fod troi darluniau dau ddimensiwn ar sgrîn neu bapur yn adeiladau tri dimensiwn go iawn yn aml yn arwain at wrthdrawiadau na chafodd eu rhagweld, yn arbennig mewn perthynas â phwyntiau cyswllt cymhleth a gwasanaethau mecanyddol a thrydanol. Fel sy'n digwydd yn gyffredinol, cafodd y gwrthdrawiadau ym Millbank eu datrys drwy adweithio yn hytrach na rhagweithio i'r broblem ar y safle, a hynny'n aml yn cael effaith negyddol ar y defnydd o adnoddau materol ac amser.

Yn yr adolygiad a gynhaliwyd ar ôl cwblhau contract y prosiect, roedd yn eglur mai'r gwrthdrawiadau a gafodd eu hadnabod gan y tîm BIM (heblaw'r diffygion a ddaeth i'r amlwg yn yr hen adeilad) oedd prif achosion yr anawsterau a gafwyd yn y cyfnod adeiladu. Mae'n hawdd bod yn ddoeth wrth edrych yn ôl, ond mae hefyd yn wir dweud y gallai'r model BIM fod wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr at y broses dylunio manwl trwy alluogi archwilio mewn ffordd rithiol y materion a gafodd eu hadnabod yn yr adroddiad blaenorol.

Cynhaliwyd gweithdy BIM gyda thîm y safle a'r cleient i edrych ar newidiadau damcaniaethol i ddyluniad a deunyddiau'r adeilad. Arweiniodd hyn at ymchwilio beth fyddai deilliannau dyluniad gwahanol ar gyfer estyniad newydd yr ysgol a chymharu hynny â'r dyluniad a ddefnyddiwyd go iawn. Y rhesymeg tu cefn i'r ymarferiad oedd cael perfformiad ynni gwell drwy leihau "amlen" allanol yr adeilad (cau'r mannau agored rhwng yr estyniad arfaethedig a'r adeilad oedd yno eisoes).

Yn y gweithdy BIM barnwyd fod maint y gegin yn rhy fawr ar gyfer ysgol o'r math yma. Gostyngwyd 20% ar ei maint cyfan.

Edrychwyd ar y perfformiad ynni hefyd drwy leihau amlen allanol yr adeilad (cau'r mannau agored rhwng yr estyniad arfaethedig a'r adeilad oedd yno eisoes). Arweiniodd y newid hwn at ostyngiad o 13.06% mewn allyriadau CO_2 . Hefyd byddid wedi lleihau foliwm y waliau oedd angen eu codi o 328.11m^3 (y gwir ffigwr) i 287.89m^3 - gostyngiad 12.1% a fyddai wedi arwain at arbed adnoddau. Ar y llaw arall, byddai arwynebedd y to, y lloriau a'r ffenestri wedi cynyddu rhwng 0.8 a 5.8%.

Yr hyn a adeiladwyd

Model arall posibl

CYNHYRCHION GWASTRAFF (m^3) GYDA CYMHWYSO BIM YMARFER



6.0 Edrych tua'r dyfodol - Cymhwyso'r Bil Amgylchedd

Amlygodd y prosiect hefyd rai heriau posibl yn y dyfodol i'r diwydiant adeiladu o ran gwaredu gwastraff. Mae gwaharddiad ar fin cael ei gyflwyno fel rhan o'r Bil Amgylchedd a fydd yn atal llosgi a thirlenwi coed, papur, cardfwrdd, gwydr, plastig, mhetalau a gwastraff bwyd. O gymhwyso hyn i'r gwastraff a grëwyd gan brosiect Ysgol Gynradd Millbank byddai'n rhaid bod wedi canfod ateb gwahanol ar gyfer tua 160m^3 o ddeunyddiau - yn bennaf gwastraff cymysg a oedd yn cynnwys papur, blychau cardfwrdd a gwastraff anadweithiol a yrrwyd i ganolfan adfer ynni neu i'w dirlenwi. Mae angen cynnal ymchwil er mwyn deall y dewisiadau posibl yn well ac adnabod y seilwaith priodol a angenrheidiol i gwrdd â gofynion y ddeddfwriaeth newydd.

7.0 Heriau allweddol

7.1 Pethau na ellid eu rhagweld

Unwaith y dechreuodd y prosiect, canfuwyd pydredd sych a gwlyb yn yr hen adeilad nad oedd yn hysbys cyn i'r gwaith ddechrau. Arweiniodd hyn at greu rhagor o wastraff oherwydd yr angen i gael gwared o'r coed halogedig a hefyd yr angen i symud ymaith y plastr, lloriau a nenfydau cysylltiedig.

7.2 Amser

Crëwyd heriau amser i'r timau oedd yn gweithio ar y safle o ganlyniad i ddefnyddio cynhyrchion newydd a gweithio i amserlen mor dynn. Golygodd hyn o bosibl na fedrodd tîm y safle ganolbwyntio cymaint ag arfer ar brosesau rheoli gwastraff.

7.3 Cynhyrchion

Er y dewiswyd blociau Durisol oherwydd eu lefel uchel o gynnwys wedi ei ailgylchu, mae'r casgliadau a nodwn yn 4.4.3. uchod wedi ein darbwyllo y dylid ystyried yn ofalus y dull adeiladu a fabwysiedir wrth ddefnyddio'r blociau hyn mewn ffurfwaith parhaol yng nghynlluniau'r dyfodol. Os na wneir hynny, mae'n bosibl y cyfyd problemau gwaredu pan gaiff yr adeilad ei ddatgymalu.

7.4 Data

Cynhaliwyd yr arolwg o gyflwr yr hen adeilad cyn gosod contract yn ystod y tymor ysgol. Felly roedd presenoldeb staff a disgyblion yn cyfyngu'n arw ar y gallu i gael mynediad i bob rhan o'r adeilad. Cyfyngwyd ar hyd a lled yr arolwg ac o ganlyniad cododd nifer o faterion na chafodd eu rhagweld, megis y pydredd sych a gwlyb na ddaeth i'r amlwg nes dechrau'r gwaith adeiladu. Roedd yr effaith ar y rhaglen adeiladu, ac ar y gwastraff a gynhyrchwyd a chyfanswm cost y prosiect yn sylweddol iawn.

Hefyd, cafodd y tan yn y ganolfan rheoli gwastraff effaith arwyddocaol ar y gwastraff a adferwyd o'r prosiect. Yn hanesyddol bu cyfradd adfer rhag tirlenwi'r ganolfan hon yn fwy na 90%. Fodd bynnag, difrodwyd y cyfleuster ailgylchu deunyddiau (MRF) yn arw gan leihau'n ddifrifol allu'r cwmni i ailgylchu deunyddiau. Mae'r effaith ar y deilliannau i'w weld yn y ffigyrau.

7.5 Ymddygiad

Heb os, arweiniodd newidiadau yn staff a rheolaeth y safle at anghysonderau yn yr arferion rheoli gwastraff. Hefyd, cyflwynwyd heriau gan y staff asiantaeth a benodwyd i'r prosiect o ran eu hymrwymiad i'r ymgyrch Galluogi Dyfodol Diwastraff ac arferion WRW eu hunain.

Oherwydd cyfyngiadau'r safle, agweddau logisteg heriol ac amserlenni'r prosiect, llithrodd arferion rheoli gwastraff i fod yn ystyriaeth eilradd. Yn absenoldeb gofyniad BREEAM a chymhellion i leihau gwastraff, roedd diffyg ymwybyddiaeth a ffocws ar faterion gwastraff ar y safle gan mai cyfyngedig oedd y trafodaethau cyn-gosod a'r trefniadau ymsefydlu (induction) ar y safle. Hefyd roedd diffyg arwyddion clir ar y sgipiau. Nid oedd ffocws ddigon cryf ar wastraff yn y cyfarfodydd cyn-gosod ac, oherwydd halogi sgipiau oedd i fod i gynnwys un math o ddeunydd yn unig, llenwyd rhagor o sgipiau gwastraff cymysg nag a fwriadwyd.

8.0 Llwyddiannau

8.1 Deunyddiau dros ben

Cafodd deunyddiau dros ben, megis paent, teils llawr a ffenestri eu cadw mewn ardal storio fel y gall yr ysgol eu defnyddio i wneud gwaith cymhennu ac atgyweirio yn ôl yr angen yn y dyfodol.

8.2 Arferion safle

Roedd y gwaith cynllunio a pharatoi ar ddechrau'r prosiect ar gyfer gwahanu a rheoli gwastraff y safle yn effeithiol.

8.3 Y gadwyn gyflenwi

Daethpwyd i drefniant "cymryd yn ôl" gyda Durisol fel eu bod yn derbyn unrhyw flociau na chafodd eu defnyddio yn ôl i'w stoc ac fel y byddai unrhyw flociau wedi torri yn mynd nôl i'r broses gynhyrchu i'w hailddefnyddio i wneud ffurfiau wal. Sicrhaodd y trefniant hwn na fyddai blociau Durisol dros ben neu wedi torri yn cael eu gwaredu mewn safle tirlenwi, ac arbedodd y trefniant £360.

8.4 Ymgysylltu â'r gymuned

Gweithiodd WRW yn agos iawn gyda'r ysgol a'r gymuned leol fel eu bod yn cyfrannu at y drafodaeth ac yn ymwybodol o effeithiau amgylcheddol y gwaith adeiladu.

8.5 Targedau Llywodraeth Cymru

Llwyddodd y prosiect i gwrdd â tharged 2015/16 Llywodraeth Cymru ar gyfer paratoi o leiaf 70% o bob gwastraff ar gyfer ei ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer.

8.6 Post project follow up

O ganlyniad uniongyrchol i ymwneud WRW â'r prosiect Galluogi Dyfodol Diwastraff, mae'r cwmni bellach wedi cyflwyno'r newidiadau canlynol ar gyfer pob un o'u prosiectau yn y dyfodol:

1. Mae gwastraff bellach ar agenda'r cyfarfodydd cyn-gosod a gynhelir gyda phob is-gontractwr. Cytunir ar strategaethau lleihau gwastraff a chytunir ar y meintiau disgwyliedig ymhell cyn dechrau'r gwaith.
2. Defnyddir SMARTWaste fel dogfen fyw trwy gydol prosiectau gan ddiweddaru'r wybodaeth yn rheolaidd. Defnyddir y data mewn cyfarfodydd prosiect misol.
3. Gyrrwyd data gwastraff cywirach at y tîm amcangyfrif er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth ar gyfer tendrau tebyg yn y dyfodol.
4. Caiff amcangyfrifon gwastraff eu cyfathrebu'n gliriach i dimau safle mewn ymgais i annog rheoli gwastraff yn barhaus trwy gydol y prosiect. Mae lleihau gwastraff hefyd ar agenda cyfarfodydd dechrau prosiect er mwyn adnabod meysydd lle gellir gostwng y gwastraff a gynhyrchir.

9.0 Casgliadau ac argymhellion

9.1 Casgliadau

Rhaid canmol tîm WRW am eu cyfraniadau agored a di-flewyn-ar-dafod wrth gymryd rhan yn Galluogi Dyfodol Diwastraff. Roedd heriau gwirioneddol mewn rhai agweddau o'r prosiect ac fe'u rhannwyd yn agored gan y rheolwyr a'r timau safle.

Ni lwyddwyd i yrru dim gwastraff o gwbl i'w dirlenwi. Fodd bynnag, gwir werth Galluogi Dyfodol Diwastraff oedd ennill gwell dealltwriaeth o gymhlethdodau prosesau adeiladu, eu cydberthynas a'r effaith ar faint y gwastraff a gynhyrchir.

Amlygodd profiad Ysgol Gynradd Millbank yr elfennau canlynol, a restrir yn nhrefn eu dylanwad, a gyfrannodd oll tuag at fethu â gwireddu'r dyhead i alluogi dyfodol cwbl ddiwastraff:

1. Pethau na ellid eu rhagweld
2. Amser
3. Dyluniad
4. Deunyddiau

Wrth i'r prosiect ddatblygu cafwyd cyfres o heriau annisgwyl. Arweiniodd y pydredd sych a gwlyb at gynhyrchu tua 200m^3 o goed halogedig, na chynlluniwyd ar ei gyfer. Roedd hyn bron 30% o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchwyd. Hefyd cynhyrchwyd mwy o wastraff byrddau plastr na'r disgwyl gan mai'r bwriad gwreiddiol oedd trwsio a sgimio dros yr hen blastr. Ond unwaith y cafwyd hyd i bydredd sych, roedd yn rhaid cael gwared o'r plastr er mwyn cael at y pren pydredig oedd wedi ei suddo yn y gwaith brics. Yn ogystal â'r effaith ar y rhagolygon cynhyrchu gwastraff a'r gofynion rheoli, ychwanegodd hyn yn sylweddol at yr amser a gymerwyd i gwblhau'r prosiect.

Gosodwyd y contract gwreiddiol gyda'r bwriad o weithredu dros gyfnod byr iawn rhwng Ionawr 2014 a Medi 2014. Oherwydd y pwysau amser a wynebir yn aml gan dimau safle, yn anffodus gyrrwyd materion gwastraff i waelod y rhestr o flaenoriaethau dyddiol. Yn achos Millbank, mae'n debygol fod y pwysau hwn yn ffactor a gyfrannodd at natur cymysg yn bennaf y gwastraff a waredwyd o'r safle. Mea'r rhaglen seiliedig ar amswer yn beirniadol i llwyddiant deilliannau o ansawdd uchel.

Gall y dyluniad gael dylanwad arwyddocaol y gwastraff a gynhyrchir. Yn achos Millbank, bernir fod dyluniad yr adeilad wedi cynyddu maint y gwastraff a gynhyrchwyd a'r deunyddiau angenrheidiol. Fel y trafodwyd yn yr adroddiad hwn, drwy ddefnyddio BIM i leihau amlen allanol yr adeilad fe ellid bod wedi lleihau maint y deunyddiau a'r gwastraff cysylltiedig. Hefyd, oni bai am yr angen i wynebu pethau annisgwyl, byddai mwy o amser wedi bod ar gael i dîm y safle ddefnyddio'r model BIM yn llawn yn ystod y cyfnod adeiladu. O wneud hynny byddent wedi medru datrys gwrthdrawiadau ymlaen llaw, cyn iddynt ddigwydd ar y safle ei hun, gan arbed adnoddau ac amser.

Nid yw defnyddio cynhyrchion cynaliadwy bob amser yn rhoi sylw i'r oblygiadau gwaredu ar ddiwedd oes y cynhyrchion hynny. Mewn rhai enghreifftiau, gall y dulliau a ddefnyddir i fodloni gofynion cynaliadwyedd gael sgil effeithiau negyddol neu ni chânt eu defnyddio i'w llawn botensial.

9.2 Argymhellion i'r contractwr

Mae'n allweddol bwysig fod y person cyfrifol am gynhyrchu'r amcangyfrif gwastraff yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â thîm y safle fel bod y rhagolygon yn rhesymol, yn gyraeddadwy ac yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o berfformiadau'r gorffennol. Mae hefyd yn bwysig fod y person hwnnw yn rhannu'r arferion gorau a chynnig adborth ynghylch perfformiad. Yn ei hanfod, rhaid i aelod o dîm y safle gymryd meddiant o reolaeth gwastraff.

Dylid ailddiffinio'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan gwmnïau i baratoi rhagolygon gwastraff, casglu a storio data am wastraff, rheoli'r gwastraff a gynhyrchir ar safle a'r gofynion adrodd. Hefyd dylai archwilwyr mewnol edrych yn rheolaidd ar weithgareddau cwmnïau er mwyn sicrhau fod eu gweithdrefnau a phrosesau'n gweithio.

Mae didoli a gwahanu gwastraff yn ei ffynhonnell yn bwysig os am gynyddu'r canran o wastraff sy'n cael ei adfer. Bydd y cwmni mwyaf blaengar yn y maes rheoli gwastraff yn ei chael yn anodd adfer mwy na 90% (a fydd yn ofynnol erbyn 2019/20) ar gyfer gwastraff cymysg. Bydd hyn hefyd yn dod yn fater mwy dyrys fyth pan gyflwynir Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn

gosod dyletswydd ar gynhyrchwyr gwastraff i wahanu'r gwastraff canlynol yn ei darddle: papur, cardfwrdd, gwydr, metal, plastig, coed a gwastraff bwyd. Rhaid trafod y gofynion hyn yn ystod cyfarfodydd cyn-gosod fel bod pawb yn gwybod beth yw eu cyfrifoldebau a bod gwastraff yn cael ei amlygu fel blaenoriaeth. Dylid cytuno ar y gofynion gwastraff a'r mecanweithiau adrodd gyda'r cwmni rheoli gwastraff a ddewiswyd er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o anghenion adrodd y prosiect a thrafod y cyfleoedd ar gyfer rheoli gwastraff.

Yn ystod sesiynau ymsefydlu ar safle (site inductions) dylid cael ffocws ar wastraff fel bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r disgwyliadau arnynt mewn perthynas â rheoli gwastraff. I alluogi hyn dylid datblygu "sgyrsiau bocs tŵls" a'u cynnal gyda phob aelod o dîm y safle. Dylid cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth ymhlith holl staff y cwmni yn amlinellu pwysigrwydd delio â materion gwastraff, a'r costau cysylltiedig.

Mae gan Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) y potensial i greu manteision arwyddocaol a gellir ei ddefnyddio i helpu'r gwaith o adnabod gwrthdrawiadau a chyfleoedd i leihau gwastraff i'r eithaf (trwy ddefnyddio meintiau safonol ar gyfer brics, blociau a byrddau plastr), symleiddio'r broses adeiladu a sicrhau fod unrhyw broblemau'n cael eu datrys cyn dechrau gweithio ar y safle.

Dylid cynnal trafodaethau cynnar gyda'r tîm dylunio a/neu'r cleient i ganfod a yw cynllun wedi ei ddylunio neu beidio gan ddefnyddio meintiau safonol er mwyn arbed creu gwastraff. Os nad ydyw, dylid ystyried a oes cyfle i wneud hynny gan bwysleisio'r manteision o ran arbed amser, adnoddau a chostau. Cyn dod i gytundeb gyda chyflenwyr, dylid trafod y posibilrwydd o sefydlu cynlluniau "cymryd yn ôl" ar gyfer deunyddiau dros ben, deunydd pacio, off cuts a nwyddau wedi eu difrodi.

Os oes gwaith dymchwel i ddigwydd, dylid cynnal arolwg cyn-dymchwel i adnabod cyfleoedd ailddefnyddio ac ailgylchu.

9.3 Argymhellion i'r cleient

Nid yw defnyddio cynhyrchion cynaliadwy bob amser yn rhoi sylw i'r oblygiadau gwaredu ar ddiwedd oes y cynhyrchion hynny. Dylid bwrw ati i greu rhestr o gynhyrchion cynaliadwy gan ddadansoddi eu cylch bywyd llawn er mwyn sicrhau y rhoddir sylw i anawsterau posibl yn y dyfodol yn gysylltiedig â'r cynhyrchion hynny.

Gall penderfyniadau amseru a rhaglennu ddylanwadu'n sylweddol ar brosiect. Dylid pennu amserau "arwain i mewn" digonol fel bod digon o amser i gontractwyr roi pethau ar waith unwaith y dyfernir contract iddynt. Mae diffinio'r amserau arwain i mewn yn galluogi'r holl dimau safle, dylunio a chleient ddod at ei gilydd yn gynnar i drafod y prosiect. Gall cyfarfodydd fel hyn fod yn amhrisiadwy yn lleihau gwastraff, gwella cyfathrebu a datblygu trefniadau effeithlon ar gyfer y safle.

Mae angen adolygu'r targedau ar gyfer defnyddio deunydd wedi ei ailgylchu mewn prosiectau gan ystyried ai dyma'r ffordd fwyaf priodol o wneud cynllun yn fwy cynaliadwy. Mewn rhai achosion, gall y dulliau a ddefnyddir i fodloni'r gofynion hyn yn eu tro gael sgil effeithiau negyddol neu ni chânt eu defnyddio i'w llawn botensial.

Mae angen cynnal ymchwil i asesu priodoldeb y trefniadau presennol ar gyfer delio â gwastraff y gwaherddir ei dirlenwi a'i losgi cyn bo hir. Os nad oes atebion ar gael, rhaid eu canfod.

Mae canfyddiadau allweddol yr ymgyrch Galluogi Dyfodol Diwastraff a phrofiadau eraill yn dangos y gall prosiectau gyflawni graddfeydd ailgylchu ac adfer uchel dros ben (gan gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y diwydiant). Fodd bynnag gall hyn fod yn unig oherwydd effeithlonrwydd y cwmni rheoli gwastraff a ddefnyddiwyd yn hytrach nag unrhyw arferion ar y safle ei hun. Wrth fonitro a rheoli gwastraff fel rhan o brosiect, rydym angen canolbwyntio mwy ar faint o wastraff a gynhyrchwyd ac a rwystrwyd nag ar faint o wastraff a arbedwyd rhag cael ei ddanfon i safle tirlenwi.

Adeiladu Arbenigrwydd Yng Nghymru
2il Lawr Dwyreiniol, Cwrt y Groes Hir
47 Heol Casnewydd
Caerdydd, CF24 0AD

T: 029 2049 3322
Ff: 029 2049 3233
E: info@cewales.org.uk
www.cewales.org.uk

@CEWales @ezwaste_wales
Constructing Excellence in Wales
CEinWales

Argraffwyd ar Cocoon offset - papur eildro 100%